Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 19.10.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## HYFFORDDIANT: Cyswllt Ffermio – Sgiliau a Hyfforddiant

Mae cyrsiau hyfforddiant Cyswllt Ffermio, wedi eu hariannu hyd at 80%, ar gael i helpu datblygu busnesau amaethyddol. Mae'r cyfnod ymgeisio presennol ar agor hyd at 5:00pm, 21 Hydref 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/sgiliau-hyfforddiant/cyrsiau-hyfforddiant

## MARCHNATA: Gweithdai Marchnata Busnes@LlandrilloMenai

Mae Busnes@LlandrilloMenai, mewn partneriaeth â Hwb Menter, wedi trefnu cyfres o weithdai marchnata am ddim wedi eu lleoli yn safle |Coleg Meirion-Dwyfor yn Nolgellau. Mae nifer cyfyngedig o lefydd ar gael ar gyfer y gweithdy 'Adnabod Cynulleidfa' i'w gynnal ar 26 Hydref 2022 (4:00pm-6:00pm) a'r gweithdy 'Lansio Strategaeth' i'w gynnal ar 9 Tachwedd 2022 (4:00pm-6:00pm). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3L59y9d

# YMGYRCH: Wythnos Ailgylchu 17-23 Hydref 2022

Mae Wythnos Ailgylchu yn digwydd yr wythnos yma hyd at 23 Hydref 2022, gyda'r ffocws ar daclo dryswch dros beth y gellir – ac na ellir – ei ailgylchu, ac ysgogi'r cyhoedd i ailgylchu mwy o'r pethau iawn, yn amlach. Mae mwy o wybodaeth, gan gynnwys pecyn adnoddau partner, ar gael ar:

https://wrapcymru.org.uk/cy/adnoddau/asedau-ymgyrchoedd/cymru-yn-ailgylchu-asedau-wythnos-ailgylchu-2022

# DIGWYDDIAD: Cynhadledd y Ganolfan Pysgod Cregyn – Sialensau a Chyfleoedd 9-10 Tachwedd 2022

Mae'r Ganolfan Pysgod Cregyn ym Mhrifysgol Bangor yn fenter ymchwil ac arloesi sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r sector pysgod cregyn yng Nghymru, a bydd yn cynnal Cynhadledd Sialensau a Chyfleoedd hollol hybrid yn Venue Cymru, Llandudno ar 9-10 Tachwedd 2022. Mae bron pob tocyn mewn person wedi'i ddyrannu, cofrestriad ar gyfer hynny yn cau ar 25 Hydref 2022, ond mae digon o argaeledd i ymuno ar-lein trwy Zoom. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.shellfish.wales/cy/

# TRETH: Troi Treth yn Ddigidol ar gyfer TAW

O 1 Tachwedd 2022, ni fyddwch yn gallu defnyddio'ch cyfrif ar-lein TAW presennol i anfon Ffurflenni TAW, a bydd angen i chi gofrestru ar gyfer Troi Treth yn Ddigidol (MTD) a defnyddio meddalwedd sy'n cydweddu i gadw'ch cofnodion TAW a chyflwyno'ch Ffurflenni TAW. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/guidance/find-software-thats-compatible-with-making-tax-digital-for-vat.cy

## LLES: Cymru Iach ar Waith

Mae Cymru Iach ar Waith yn rhoi cymorth am ddim i gyflogwyr, unigolion ac ystod o weithwyr iechyd proffesiynol i helpu pobl o oedran gweithio i aros yn heini ac yn iach fel y gallant barhau i weithio, neu ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod o salwch. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/cymru-iach-ar-waith/

## CYMORTH: Cymorth Tir Dewi i Ffermwyr

Mae Tir Dewi yn elusen sy'n cynnig cefnogaeth gyfrinachol i ffermwyr a'u teuluoedd sy'n mynd drwy gyfnodau anodd. Mae rhif llinell gymorth Tir Dewi yn cael ei staffio gan wirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi i wrando a chwilio am y ffordd orau o weithredu, a'r bobl briodol i helpu gyda'r gwahanol anghenion sy'n codi. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://tirdewi.wales/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru